Stori'r ffermwr yn hau

Mathew 13:1-9; 18-23

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Stori'r ffermwr yn hau		
1	Aeth Iesu allan ac eistedd ar lan Llyn Galilea. Roedd cymaint o dyrfa wedi casglu o'i gwmpas nes bod rhaid iddo fynd i eistedd mewn cwch tra oedd y bobl i gyd yn sefyll ar y lan.		
2	Tra oedd y dyrfa yn aros ar y lan dyma Iesu yn defnyddio llawer o straeon i rannu ei neges gyda nhw, yn dweud:		
3	'Gwrandewch! Aeth ffermwr allan i hau had.		

4	'Wrth iddo wasgaru'r had, dyma beth ohono yn syrthio ar y llwybr ...	
5	... a dyma'r adar yn dod a'i fwyta.	
6	'Dyma beth o'r had yn syrthio ar dir creigiog lle doedd ond haen denau o bridd. Tyfodd yn ddigon sydyn, ond yn yr haul poeth dyma'r tyfiant yn gwywo. Doedd ganddo ddim gwreiddiau.	
7	'Yna dyma beth o'r had yn syrthio i ganol drain, ond tyfodd y drain a thagu'r planhigion.	
8	'Ond syrthiodd peth o'r had ar bridd da. Tyfodd cnwd da yno ...	

9	... beth ohono gan gwaith, chwe deg gwaith neu dri deg gwaith mwy na chafodd ei hau. “Gwrandwch yn ofalus os dych chi'n awyddus i ddysgu!”	
10	Yna esboniodd Iesu ystyr y dameg i'w ddisgyblion.	
11	Pan mae rhywun yn clywed y neges am y deyrnas a ddim yn deall, mae'r Un drwg yn dod ac yn cipio beth gafodd ei hau yn y galon. Dyna'r had ddisgynnodd ar y llwybr.	
12	Yr had sy'n syrthio ar dir creigiog ydy'r sawl sy'n derbyn y neges yn frwd i ddechrau. Ond dydy'r neges ddim yn gafael yn y person go iawn, ac felly dydy e ddim yn para'n hir iawn. Pan mae argyfwng yn codi, neu wrthwynebiad am ei fod wedi credu, mae'n troi cefn yn ddigon sydyn!	
13	Wedyn yr had syrthiodd i ganol drain ydy'r sawl sy'n clywed y neges, ond mae'n rhy brysur yn poeni am hyn a'r llall ac yn ceisio gwneud arian. Felly mae'r neges yn cael ei thagu a does dim ffrwyth i'w weld yn ei fywyd.	

14	Ond yr had sy'n syrthio ar dir da ydy'r sawl sy'n clywed y neges ac yn ei deall.	
15	Mae'r effaith fel cnwd anferth – can gwaith neu chwe deg gwaith neu dri deg gwaith mwy na gafodd ei hau.”	
16	Cyfieithiad www.beibl.net	